



Themau - Themes

wedi. *have as in wedi gweld / have seen*

Patrymau Iaith - Language patterns

Mae *wedi* yn cymryd lle yn mewn brawddeg i sôn am rywbeth sydd wedi digwydd.
Wedi takes the place of yn in the sentence to note that something has happened.

Mae hi'n canu *She is singing*
 Mae hi wedi canu *She has sung*

Mae'r un atebion i 'Dych chi'n canu?' a 'Dych chi wedi canu?'.
The answers to 'Dych chi'n canu?' and 'Dych chi wedi canu?' are the same. -

Ydy hi wedi gweithio? *Has she worked?* Ydy / Nac ydy
 Wyt ti wedi bwyta? *Have you eaten?* Ydw / Nac ydw

Esiamplau ychwanegol - Extra examples

Nodwch y gwahaniaeth - Note the difference

Gwelais i *I saw* *(past tense)*
 Dw i wedi gweld *I have seen* *(perfect tense)*

erioed wedi - *never*

Mae '*erioed*' yn cael ei ddefnyddio gyda '*wedi*' yn lle 'dim'.
'Erioed' is used with 'wedi' instead of 'dim'.

Dw i ddim wedi clywed *I haven't heard*
 Dw i erioed wedi clywed *I've never heard*

Tasgau - Tasks

Tasg sain / Audio task

Llenwch y bylchau

Fill in the gaps

Dyw Daniel ddim dechrau pacio.
 Mae e'n trio gwyllo
 Mae'r bws yn gadael am hanner awr wedi
 Mae popeth ar y yn barod.
 Mae Mr Francis casglu pasport pawb.
 Mae Daniel yn cael o'r diwedd.

Tasg fideo / Video task

Cywir neu anghywir? Rhowch dic (✓) neu groes (✗) ar ôl y brawddegau hyn.
Right or wrong? Put a tick (✓) or a cross (✗) after these sentences.

Mae James wedi cael dadl gyda Sara
gwneud gwaith tŷ
torri'r gwair
chwynnu'r ardd
golchi'r llestri
plannu tatws
tacluso'r stafell fyw
agor can o lagyr
tynnu sgidiau mwdlyd

Sgript Sain - Audio Script

Mam: Daniel! Daaaanieeeeeel!

Daniel: Ie, Mam.

Mam: Daniel, wyt ti wedi gorffen pacio?

Daniel: Beth Mam?

Mam: Wyt ti wedi gorffen pacio? Mae'n hwyr!

Daniel: O! Ydw, Mam - wel, bron.

Mam: Ydw i'n clywed sŵn y teledu?

Daniel: Teledu?

Mam: Rwyt ti'n gwyllo'r teledu!

Daniel: Dw i'n rhoi'r dillad i mewn i'r cês, Mam.

Mam: Wyt ti wedi pacio'r sanau?

Daniel: Ydw, Mam. Dw i wedi rhoi'r sanau yn y cês.

Mam: Wyt ti wedi rhoi pethau 'molchi i mewn? Sebon, brwsh dannedd, shampŵ?

Daniel: Ydw Mam.

Mam: Gwely te! Mae hi'n ddeg o'r gloch ac mae'r bws yn gadael am hanner awr wedi pump bore 'fory. Dw i'n dod lan i checio'r cês yna ...

Daniel: Mam! Dw i'n trio gwyllo ffilm - mae'r bechgyn i gyd yn gwyllo'r ffilm yma heno...

Mam: Dwyt ti ddim wedi dechrau pacio!

Daniel: Dwy funud a bydd popeth yn y cês. Mae popeth ar y gwely yn barod.

Mam: Reit, i mewn â nhw! Dillad, bag 'molchi ... pasbort? Ble mae dy basbort di?

Daniel: Mmm, ie, ble mae fy mhasbort i? Gyda chi?

Mam: Na, Daniel. Ddim gyda fi.

Daniel: O! Dw i'n cofio! Mae'r pasport gyda Mr Francis! Mae e wedi casglu pasbort pawb yn barod.

Mam: Diolch byth! Reit, helpa fi i gau'r zip ... iawn. I'r gwely!

Daniel: Iawn, Mam. Nos da! Diolch am eich help!

Mam: Nos da.

Daniel: Llonydd o'r diwedd!

Geirfa

gorffen - *(to) finish*

bron - *almost*

sanau - *socks*

dillad - *clothes*

llonydd - *peace and quiet*

o'r diwedd - *at last*

Sgript Fideo - Video Script

Arwyn: Sut mae James. Peint bach?

James: Pam lai! Dw i angen peint.

Arwyn: O, pam hynny?

James: Dyn ni wedi cael dadl.

Arwyn: Eto?

James: Ie. Eto.

Arwyn: Am beth?

James: Am waith tŷ.

Arwyn: Beth? Wyt ti wedi bod yn gwneud gwaith tŷ?

James: Nac ydw. Dw i wedi bod yn rhy brysur.

Arwyn: Ti? Wedi bod yn brysur?

James: Dw i wedi bod yn brysur. Dw i wedi bod yn torri'r gwair, yn chwynnu'r ardd ac wedi plannu llysiau.

Arwyn: Llysiau? Pa llysiau?

James: Dw i wedi plannu tatws.

Arwyn: Rwyt ti wedi bod yn brysur felly!

James: Ydw. Felly ro'n i jyst yn agor can o lagyr o flaen y teledu pan ddaeth Sara adre.

Arwyn: Doedd hi ddim yn hapus?

James: Nac oedd! Doedd hi ddim yn hapus. 'Dwyt ti ddim wedi golchi'r llestri, dwyt ti ddim wedi tacluso'r stafell fyw, dwyt ti ddim wedi newid y golau yn yr ystafell wely sbâr a dwyt ti ddim wedi tynnu dy sgidiau mwdlyd cyn dod i'r tŷ!

Arwyn: Wel, wel. Ar ôl i ti weithio'n galed yn yr ardd. Dw i erioed wedi clywed y fath nonsens.

James: Dw i'n gwybod.

Arwyn: Menywod. Hy!

Geirfa

dadl - *argument*

chwynnu - *(to) weed*

llysiau - *vegetables*

tacluso - *(to) tidy*

newid - *(to) change*

tynnu sgidiau - *(to) take shoes off*

y fath nonsens - *such nonsense*

Atebion - Answers

Tasg sain / Audio task

Dyw Daniel ddim wedi dechrau pacio.

Mae e'n trio gwyllo ffilm.

Mae'r bws yn gadael am hanner awr wedi pump.

Mae popeth ar y gwely yn barod.

Mae Mr Francis wedi casglu pasport pawb.

Mae Daniel yn cael llonydd o'r diwedd.

Tasg fideo / Video task

Mae James wedi	cael dadl gyda Sara	✓
	gwneud gwaith ty	×
	torri'r gwair	✓
	chwynnu'r ardd	✓
	golchi'r llestri	×
	plannu tatws	✓
	tacluso'r stafell fyw	×
	agor can o lagyr	✓
	tynnu sgidiau mwdlyd	×